

Technoleg Iechyd Cymru: Adroddiad Adolygiad Cynnydd 5 Mlynedd

**Mark Campbell, ymgynghorydd technoleg iechyd annibynnol
Tachwedd 2022**

Crynodeb gweithredol

- Mae'r adroddiad hwn yn adolygu cynnydd Technoleg Iechyd Cymru (HTW) ar ôl 5 mlynedd o weithredu, gan ddefnyddio manyleb sy'n seiliedig ar argymhellion adroddiad Mynediad at Dechnolegau Meddygol Cymru 2014, ac yn dilyn adroddiad tebyg ar y cam 3 blynedd.
- Yn seiliedig ar adolygiad cyflym, sy'n cynnwys tystiolaeth ddogfennol, adborth gan randdeiliaid ac arsylwi uniongyrchol, mae HTW yn cyflawni ei swyddogaethau craidd yn gryf ac yn amlwg, ac mae wedi gwneud cynnydd da ar yr awgrymiadau ar gyfer gwella a wnaed yn yr adolygiad 3 blynedd. Mae rhanddeiliaid yng Nghymru a thu hwnt sy'n gweithio gyda HTW yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ei arbenigedd mewn nodi, arfarnu a mabwysiadu technolegau iechyd. Mae rhanddeiliaid hefyd yn ystyried HTW i fod yn sefydliad a lywodraethir yn dda.
- Mae HTW wedi tyfu ers 2020 ac mae'n parhau i fod yn uned sy'n gweithredu'n dda ac mae wedi parhau i gyhoeddi ystod drawiadol o gynnyrch HTA o ansawdd uchel. Ymhlith y datblygiadau nodedig ers 2020 mae cyfraniad sylweddol at yr ymateb i COVID-19 yng Nghymru, datblygiad cynllun strategol cryf, cwblhau adroddiad peilot archwiliad mabwysiadu a gwaith arloesol ar werthuso technolegau gofal cymdeithasol.
- Mae'n anodd mesur effaith sefydliadau HTA, gan gynnwys eu gwerth am arian, oherwydd diffyg gwybodaeth feincnodi. Mae swyddogaethau nodi pynciau a mabwysiadu HTW yn heriau sylweddol i bob sefydliad HTA oherwydd bod datrysiadau effeithiol, megis polisi arloesi i orfodi eu defnydd, neu gapasiti system iechyd ar gyfer mabwysiadu'n lleol, y tu hwnt i'w rheolaeth. Fodd bynnag, mae HTW wedi gweithio'n galed i wneud ei brosesau nodi pynciau mor effeithlon â phosibl, ac mae canfyddiadau'r archwiliad mabwysiadu yn galonogol ynglŷn â defnydd technolegau a argymhellir yn ei ganllawiau.
- I grynhoi, mae HTW yn rhan unigryw y gellir ymddiried ynddi ac a werthfawrogir o'r maes arloesi yng Nghymru ac mae ei gynllun strategol yn rhoi sylfaen ragorol ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Fel yn yr adolygiad cynnydd 3 blynedd, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer gwella ar gyfer pob un o gwestiynau'r adolygiad.

Cefndir

1. Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i fanyleb (atodiad 1) a ddatblygwyd ym mis Medi 2022 gan Gyfarwyddwr a Chadeirydd Technoleg Iechyd Cymru (HTW). Mae'n disgrifio tarddiad a swyddogaethau HTW ac yn egluro cefndir yr adolygiad. I grynhoi, mae'r adolygiad wedi'i gynllunio i helpu i fyfyrion feirniadol ar weithgareddau'r sefydliad a'i gyfeiriad yn y dyfodol ar ôl 5 mlynedd o weithredu, ac mae'n dilyn [adolygiad 3 blynedd tebyg a gynhaliwyd yn 2020](#). Mae Tabl 1 isod yn rhestru cwestiynau'r adolygiad yn y fanyleb, wedi'u croesgyfeirio â manyleb yr adolygiad 3 blynedd.

Tabl 1: Cwestiynau ym manylebau adolygiadau cynnydd 3 a 5 mlynedd HTW

C	Cwestiynau ar gyfer yr adolygiad cynnydd 5 mlynedd	Rhif y cwestiwn yn yr adolygiad 3 blynedd# (neu gwestiwn[cwestiynau] sydd â'r cysylltiad agosaf os nad ydynt hefyd yn bresennol yn y ddwy fanyleb)
1	Cynnydd cyffredinol HTW yn erbyn yr argymhellion a oedd sail i'w sefydlu yn ymchwiliad 2014 Llywodraeth Cymru, 'Mynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru'.	1
2	Cynnydd HTW yn erbyn yr amcanion a nodir yng Nghynllun Strategol HTW.	Newydd (1)
3a	Cynnydd parhaus, gan adeiladu ar adroddiad adolygiad annibynnol 3 blynedd HTW, gan ei ddiweddarau i'r cyfnod 5 mlynedd; canolbwyntio ar flynyddoedd 3-5 ac ymgorffori hyn i grynodedd cyffredinol o gynnydd (blynyddoedd 0-5).	Newydd (1)
3b	Asesu cynnydd HTW yn erbyn yr awgrymiadau gwella a amlinellwyd yn yr adolygiad 3 blynedd.	Newydd (Amh)
4	Ansawdd swyddogaeth arfarnu HTW, ei adolygiad tystiolaeth a'i allbynnau o ran Canllawiau a'u cysondeb ag arfer da wrth gynnal HTA.	2
5	Asesu cynnydd yn natblygiad swyddogaeth archwilio mabwysiadu HTA, yn seiliedig ar adroddiad peilot yr archwiliad mabwysiadu (drafft).	Newydd (1)
6	Asesiad o gyfraniad HTW i ymateb COVID-19 yng Nghymru.	Newydd (6)
7	Ystyried cyfraniadau allweddol y gall HTW eu cynnig i gefnogi Strategaeth Arloesi Cymru Llywodraeth Cymru.	Newydd (6)
8	Asesiad o effaith cyfraniadau HTW a'r enillion ar fuddsoddiad a gwerth am arian HTW.	4 (3,5,7)
9	Capasiti a gallu HTW, o ran staffio ac arweinyddiaeth, i ymateb yn effeithiol i ofynion yn y dyfodol a'r amgylchedd sy'n newid.	6
10	Meysydd a awgrymir i'w datblygu, yn seiliedig ar ddadansoddiad o fylchau yn erbyn argymhellion yr Ymchwiliad, i sicrhau bod HTW yn parhau i fod ar flaen y gad o ran arferion HTA ac yn cynnal trylwyredd ac ymddiriedaeth yn ei arfarniadau a'i ganllawiau.	8
#	Y cwestiynau ychwanegol a nodwyd yn yr adolygiad 3 blynedd, ond nid yma, oedd: 3. Effeithlonrwydd a chynhyrchiant model adolygu cyflym HTW, wedi'i feincnodi yn erbyn sefydliadau cymheiriaid cenedlaethol a rhyngwladol (e.e. cyrff HTA eraill); 5 - Gwerth adeiladu gallu HTA ychwanegol yng Nghymru, drwy fuddsoddi mwy yn HTW, o gymharu â phrynu'r gallu hwn gan ddarparwyr allanol gwasanaethau dadansoddi (e.e. canolfannau academiaidd, ymgynghorwyr ac ati); 7 - Cydbwysedd rhwng swyddogaethau nodi, arfarnu a mabwysiadu HTW ac	

a yw lefelau ariannu a bod dyraniadau presennol yn adlewyrchu cydbwysedd swyddogaethau a blaenoriaethau.

Dulliau

2. Cynhaliwyd yr adolygiad ym misoedd Hydref a Thachwedd 2022 gyda chyfanswm amser gwaith o 7.5 diwrnod wedi'i neilltuo. Defnyddiwyd dulliau cymysg gan dynnu'n bennaf ar wybodaeth oedd ar gael yn hawdd ac a gasglwyd mewn tair ffordd:
 - a. Gwybodaeth ddogfennol yn cynnwys gwybodaeth gyhoeddedig sydd ar gael ar wefan neu sianeli cyfryngau cymdeithasol HTW, a deunydd mewnol a ddarparwyd gan dîm HTW. Datblygwyd cynllun casglu tystiolaeth a oedd yn cynnwys disgrifyddion dogfennau generig ar gyfer y math o wybodaeth y disgwyliwyd iddi fod ar gael ac a allai lywio sylwadau ar gwestiynau'r adolygiad. Cyfatebodd tîm HTW y disgrifyddion â'r dogfennau a oedd ar gael. Casglwyd tystiolaeth ysgrifenedig bellach wrth i faterion godi, wedi'i hategu gan eglurhad a chwestiynau drwy e-bost;
 - b. Cyfweiliad anffurfiol, lled-strwythuredig gyda staff a rhanddeiliaid a ddewiswyd i adlewyrchu safbwyntiau perthnasol ar waith HTW: profiad o weithio'n uniongyrchol gyda'r sefydliad; system iechyd a gofal; diwydiant gwyddor bywyd; ac asiantaethau partner asesu technoleg iechyd (HTA). Cynlluniwyd themâu cwestiynau i gwmpasu bylchau mewn tystiolaeth ysgrifenedig ac i gadarnhau argraffiadau a gafwyd o dystiolaeth arall. Cynhaliwyd cyfweiliadau yn gyfrinachol, ac ar y sail na fyddai ymatebion yn cael eu priodoli i unigolion;
 - c. Arsylwi ar grwpiau gwneud penderfyniadau allweddol HTW i asesu effeithlonrwydd ac ansawdd prosesau, a dulliau ar gyfer gwneud penderfyniadau.
3. Strwythur yr adroddiad arfaethedig cychwynnol oedd dadansoddi a chrynhoi'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer pob un o'r 10 cwestiwn ar wahân ond byddai hyn - oherwydd gorgyffwrdd yn y cwestiynau ac yn y dystiolaeth a gasglwyd - wedi arwain at ailadrodd a diffyg eglurder. Yn hytrach, cyflwynir y naratif drwy grwpio'r 10 cwestiwn yr adolygiad mewn 4 thema, a mapiwyd yr awgrymiadau gwella o'r adolygiad 3 blynedd arnynt (Tabl 2).

Tabl 2. Thema a chyfuno cwestiynau'r adolygiad ac awgrymiadau ar gyfer gwella o'r adolygiad cynnydd 3 blynedd

Thema	Cwestiwn yr Adolygiad	Cwestiynau adolygiad 5 mlynedd ac awgrymiadau gwella cysylltiedig o'r adroddiad adolygiad cynnydd 3 blynedd (gyda rhif(au) paragraff perthnasol o'r adroddiad hwnnw)
A. Cynnydd cynyddraddol a chyffredinol	1	Cynnydd cyffredinol HTW yn erbyn yr argymhellion a oedd sail i'w sefydlu yn ymchwiliad 2014 Llywodraeth Cymru, 'Mynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru'.
	2	Cynnydd HTW yn erbyn yr amcanion a nodir yng Nghynllun Strategol HTW.
	3a	Cynnydd parhaus, gan adeiladu ar adroddiad adolygiad annibynnol 3 blynedd HTW, gan ei ddiweddarau i'r cyfnod 5 mlynedd; canolbwyntio ar flynyddoedd 3-5 ac ymgorffori hyn i grynodedb cyffredinol o gynnydd (blynyddoedd 0-5).
	5	Asesu cynnydd yn natblygiad swyddogaeth archwilio mabwysiadu HTA, yn seiliedig ar adroddiad peilot yr archwiliad mabwysiadu (drafft).

B. Ansawdd allbwn arfarnu	4	<p>Ansawdd swyddogaeth arfarnu HTW, ei adolygiad tystiolaeth a'i allbynnau o ran Canllawiau a'u cysondeb ag arfer da wrth gynnal HTA.</p> <p>S1 Ymsefydlu ac amser i ffwrdd ar gyfer pwyllgorau (paragraff 22)</p> <p>S2 Gwella'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith asesu tystiolaeth HTW (23)</p> <p>S3 Datblygu a chyhoeddi prosesau a dulliau ar gyfer datblygu canllawiau (24)</p>
C. Effaith ac enillion ar fuddsoddiad	8	<p>Asesiad o effaith cyfraniadau HTW a'r enillion ar fuddsoddiad a gwerth am arian HTW.</p> <p>S4 Monitro ymrwymadau mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chydweithrediadau asiantaethau HTA (33, 34)</p> <p>S6 Sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau cyfeirio a datblygu canllawiau i fel y gellir llunio barn am werth am arian yn y dyfodol (36)</p> <p>S7 Archwilio opsiynau ar gyfer darpariaeth gydweithredol/comisiynu gwasanaethau asesu tystiolaeth (41)</p> <p>S10 Dadansoddiad o'r defnydd o adnoddau o amser technegol er mwyn sicrhau bod swyddogaeth canllawiau craidd HTW yn cael ei blaenoriaethu (53)</p> <p>S11 Monitro a gwella effeithlonrwydd prosesau nodi pynciau a gwaith paratoi gan gynnwys gwaith ar y cyd ag asiantaethau HTA eraill (54)</p> <p>S12 Opsiynau i gynyddu'r mewnbwn o bynciau canllaw, gan gynnwys penderfyniadau cynharach ynglŷn ag a ddylid datblygu pynciau a sut, addasu canllawiau eraill a chyfyngu ar nifer yr arfarniadau technoleg lluosog sy'n defnyddio llawer o adnoddau (55)</p>
D. Capasiti a gallu	9	<p>Capasiti a gallu HTW, o ran staffio ac arweinyddiaeth, i ymateb yn effeithiol i ofynion yn y dyfodol a'r amgylchedd sy'n newid.</p> <p>S5 Sicrhau pris marchnad teg am Gyngor Gwyddonol (35)</p> <p>S8 Datblygu sgiliau arwain a rheoli ymhlith uwch aelodau staff ac ystyried rôl rheoli rhaglenni (46)</p> <p>S9 Cynnal a datblygu ymhellach y fframwaith cynllunio busnes ac adrodd, gan gynnwys monitro risg (47)</p>
	6	Asesiad o gyfraniad HTW i ymateb COVID-19 yng Nghymru.
	7	Ystyried cyfraniadau allweddol y gall HTW eu cynnig i gefnogi Strategaeth Arloesi Cymru Llywodraeth Cymru.
#	3b	Asesu cynnydd HTW yn erbyn yr awgrymiadau gwella a amlinellwyd yn yr adolygiad 3 blynedd.
#	10	Meysydd a awgrymir i'w datblygu, yn seiliedig ar ddadansoddiad o fylchau yn erbyn argymhellion yr Ymchwiliad, i sicrhau bod HTW yn parhau i fod ar flaen y gad o ran arferion HTA ac yn cynnal trylwyredd ac ymddiriedaeth yn ei arfarniadau a'i ganllawiau.
#		Wedi'i gynnwys ar ddiwedd pob adran thema

Tystiolaeth Dogfennaeth

4. Adolygwyd dros 130 o ddarnau o dystiolaeth ddogfennol. Mae'r cynllun casglu tystiolaeth a rhestr gryno o'r dogfennau fesul cwestiwn adolygu i'w gweld yn atodiad 2. Roedd llawer o'r dystiolaeth ddogfennol yn berthnasol i fwy nag un cwestiwn; rhestrir pob ffynhonnell yn erbyn y cwestiwn cyntaf yr oedd yn berthnasol iddo.

Cyfweliadau â rhanddeiliaid

5. Cynhaliwyd cyfweliadau ffôn hyd at 30 munud gyda 6 aelod o staff, gan gynnwys Cadeirydd HTW, a gyda 16 o rhanddeiliaid allanol; atebodd 3 o rhanddeiliaid allanol gwestiynau penodol drwy e-bost (atodiad 3). Roedd y cwestiynau'n seiliedig ar fanyleb yr adolygiad, wedi'u haddasu ar gyfer safbwynt y cyfwelai. Rhoddodd pedwar o'r rhanddeiliaid allanol (2 o asiantaethau HTA, 1 arweinydd cymdeithas diwydiant ac 1 o system iechyd a gofal Cymru) fewnbwn i'r adolygiad 3 blynedd hefyd.

Arsylwi ar gyfarfodydd allweddol

6. Arsylwyd ar dri chyfarfod HTW:

- a. Panel Arfarnu (AP) ar 25 Hydref pan ddatblygwyd canllawiau ar un pwnc;
- b. Grŵp Asesu (AG) ar 1 Tachwedd a adolygodd un Adolygiad Asesu Tystiolaeth (EAR) a gynlluniwyd i'w gyflwyno i'r Panel Arfarnu, ac un EAR nad oedd yn symud ymlaen cyn ei gyhoeddi;
- c. Grŵp Asesu (15 Tachwedd) a ystyriodd tua 60 o bynciau (y rhan fwyaf ohonynt wedi'u nodi rhwng misoedd Mehefin a Medi 2022) a chyflwynwyd tri ohonynt am benderfyniad i symud ymlaen i ddatblygu canllawiau. Yn ogystal, trafodwyd a chytunwyd ar yr angen i ddiweddarau dau bwnc canllaw presennol.

Er na arsylwyd ar y cyfarfod, adolygwyd enghreifftiau diweddar o agendâu, papurau a chylch gorchwyl ar gyfer Grŵp Defnyddwyr y Diwydiant, Grŵp Sefydlog Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) a'r Grŵp Cyfeirio fel rhan o'r dystiolaeth a ddarparwyd.

Thema A - Cwestiwn 1 yr adolygiad – cynnydd cynyddraddol a chyffredinol yn erbyn argymhellion Mynediad i Dechnolegau Meddygol Cymru.

7. Mae'r thema hon yn ymdrin â chwestiynau canlynol yr adolygiad, yn y drefn a ddangosir.

Thema	Rhif	Cwestiwn yr adolygiad
A. Cynnydd cynyddraddol a chyffredinol	1	Cynnydd cyffredinol HTW yn erbyn yr argymhellion a oedd sail i'w sefydlu yn ymchwiliad 2014 Llywodraeth Cymru, 'Mynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru'.
	3a	Cynnydd parhaus, gan adeiladu ar adroddiad adolygiad annibynnol 3 blynedd HTW, gan ei ddiweddarau i'r cyfnod 5 mlynedd; canolbwyntio ar flynyddoedd 3-5 ac ymgorffori hyn i grynodedb cyffredinol o gynnydd (blynyddoedd 0-5).
	2	Cynnydd HTW yn erbyn yr amcanion a nodir yng Nghynllun Strategol HTW
	5	Asesu cynnydd yn natblygiad swyddogaeth archwilio mabwysiadu HTA, yn seiliedig ar adroddiad peilot yr archwiliad mabwysiadu (drafft).

8. Gwnaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal 13 o argymhellion a [derbyniwyd pob un ohonynt mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru](#). Mae pob argymhelliad yn effeithio ar waith HTW, gyda rhifau 3 a 5 yn arbennig o berthnasol i'w sefydlu:
3. Dylai'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, ddatblygu opsiynau ar gyfer mecanwaith arfarnu technolegau meddygol Cymru gyfan, i gyflawni swyddogaeth debyg mewn perthynas â thechnolegau meddygol fel y mae'r â Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yn ei wneud ar gyfer meddyginiaethau.
 5. Dylai'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod cyfradd mabwysiadu technolegau meddygol a argymhellir ledled Cymru, gan gynnwys y rheini a argymhellir gan NICE, yn cael ei fesur fel rhan o broses archwilio ffurfiol.

Prif ganfyddiadau

9. Ar ôl pum mlynedd o weithredu, mae HTW yn cyflawni argymhellion 3 a 5 yn argyhoeddiadol, sy'n gyflawniad sylweddol oherwydd y nifer o heriau i asesu technoleg iechyd (HTA) cynhyrchion nad ydynt yn gyffuriau, ac oherwydd yr angen i ymateb i, a dychwelyd i fusnes fel arfer ar ôl y pandemig COVID-19 (gweler thema D am ragor o wybodaeth am gyfraniad HTW).
10. Mae HTW wedi parhau, fel y daethpwyd i'r casgliad yn adroddiad yr adolygiad 3 blynedd, i gael ei gydnabod fel canolfan arbenigedd uchel ei pharch ar gyfer nodi, arfarnu ac archwilio technolegau iechyd, gan dynnu ar arfer gorau a chydweithio rhyngwladol ond gyda phersbectif Cymreig cryf i'w waith. Mae'r cyflawniadau nodedig sydd wedi bod ers yr adolygiad 3 blynedd yn cynnwys:
- Datblygu'r cynllun strategol 5 mlynedd, drwy ymgysylltu'n ofalus â rhanddeiliaid, i roi'r sylfaen ar gyfer amcanion busnes blynyddol, a galluogi gweledigaeth fwy hirdymor;
 - Ymgysylltu pellach â rhwydweithiau systemau iechyd a gofal allweddol a chreu a chynnal cytundebau partneriaeth gyda sefydliadau eraill yn yr ecosystem arloesi. Cadarnhawyd hyn gan rhanddeiliaid allanol a wnaeth, pan ofynnwyd iddynt am argraffiadau cyffredinol, ddisgrifio HTW yn gyson fel sefydliad cydweithredol;
 - Cyhoeddiad cyntaf sawl darn cynlluniedig o ganllawiau gofal cymdeithasol, yn dilyn rhaglen ymgysylltu strwythuredig a llwyddiannus;
 - Cwblhau'r adroddiad peilot archwiliad mabwysiadu.
11. Mae'r Cynllun Strategol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021, yn gosod 4 nod ar gyfer y cyfnod 2021-25 sy'n cwmpasu swyddogaethau craidd HTW sef nodi, arfarnu a mabwysiadu, gyda nod trawsbynciol ar ymgysylltu. Mae Adroddiad Blynyddol 2021 yn disgrifio'n glir a chynhwysfawr y gweithgareddau a'r allbynnau eang sy'n cefnogi pob nod. Defnyddir nodau'r Cynllun Strategol hefyd i osod cerrig milltir, allbynnau a dangosyddion perfformiad priodol, y cytunir arnynt gyda Llywodraeth Cymru. Yn seiliedig ar adroddiad Chwarter 4 ar gyfer 2021/22, llwyddodd HTW i gyflawni neu ragori ar bron bob un o'r targedau ac mae sylwebaeth glir ar yr amrywiant a'r gwersi a ddysgwyd.
12. Mae HTW wedi cynnal ei ymrwymiad cynnar i ymgysylltu â'r system a dylai'r gwaith datblygu ar y Fforwm Rhanddeiliaid, gan gynnwys gweithgareddau arweinyddiaeth ei gadeirydd, arwain at seinfwrdd effeithiol.

13. Daeth yr adolygiad 3 blynedd i'r casgliad y byddai unrhyw ddyfarniadau ar argymhelliad 5 y Pwyllgor Iechyd a Gofal yn gynamserol oherwydd - er bod gwaith sylfaenol rhagorol wedi'i wneud - bod y pandemig wedi gohirio'r archwiliad mabwysiadu arfaethedig. Mae adroddiad peilot yr archwiliad, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022, wedi'i groesawu gan Lywodraeth Cymru ac, yn arbennig, wedi'i gymeradwyo i'r system iechyd a gofal gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd a Phrif Weithredwr GIG Cymru. Mae'r adroddiad yn dangos bod y fethodoleg, a oedd yn cynnwys datblygu offeryn casglu data pwrpasol a chymorth ymarferol ac ariannol i ymatebwyr, yn gallu ennyn ymatebion ystyrlon. Mae adolygiad o lenyddiaeth i bennu a oes unrhyw waith tebyg yn bodoli y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn, ond mae, yn ôl unrhyw safon, yn gyflawniad sylweddol a wneir yn bosibl drwy ddull sensitif a gynlluniwyd yn ofalus, ac agoswydd HTW at ei gynulleidfa oedd targed.
14. Mae'n anochel bod canfyddiadau'r archwiliad mabwysiadu yn gymysg, gan adlewyrchu'r heriau o ran mabwysiadu technolegau iechyd, ond maent yn rhoi negeseuon cadarnhaol cyffredinol ar gyfer cydnabod canllawiau HTW a'u heffaith ar wneud penderfyniadau mabwysiadu. Dyfarniadau empirig yw'r rhain oherwydd y prinder gwaith tebyg gan asiantaethau HTA mewn systemau iechyd a gofal eraill, sy'n adlewyrchu'r heriau cydnabyddedig o fesur y nifer sy'n mabwysiadu technoleg iechyd. Ar y cyfan, mae'r adroddiad peilot yn rhoi sylfaen ragorol ar gyfer datblygu gan gynnwys – fel y nodir yn Argymhelliad 5 yr ymchwiliad Mynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru – y bwriad i gynnwys argymhellion perthnasol NICE.

Adborth gan randdeiliaid allanol

15. Mae adborth gan randdeiliaid allanol sy'n gweithio gyda HTW yn cadarnhau'n gryf y darlun cyffredinol o asiantaeth HTA sefydledig sy'n hynod arbenigol, wedi'i llywodraethu'n dda, yn gydweithredol, ac sydd â lle unigryw a gwerthfawr yn ecosystem arloesi Cymru. Thema a gododd dro ar ôl tro o'r adolygiad 3 blynedd oedd y capasiti a'r gallu gwael i fabwysiadu arloesedd ar raddfa fawr mewn system iechyd a gofal sydd dan bwysau, er gwaethaf ansawdd a hygyrdd allbynnau HTW. Nododd sawl rhanddeiliad fod angen datblygu polisi arloesi cenedlaethol ymhellach, gan gynnwys adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o systemau iechyd eraill, megis Rhaglen Gydweithredol Mynediad Cyflymedig Lloegr. Pan ofynnwyd sut y gallai gwaith HTW gael mwy o effaith, thema a gododd dro ar ôl tro yn adborth rhanddeiliaid oedd aliniad pellach ac amlycach ei raglen waith â blaenoriaethau system gan gynnwys adferiad wedi COVID.
16. Roedd barn leiafrifol ymhlith rhanddeiliaid ynglŷn ag a oes angen asiantaeth HTA ar wahân ar gyfer Cymru. Barn llawer mwy cyffredin oedd cefnogaeth i ffocws Cymreig ond gwell eglurder ynglŷn â rolau HTW a NICE. Soniodd rhanddeiliaid am ddryswch a risg o ddyblygu a byddent yn croesawu hyrwyddo ac esboniad mwy cydgysylltiedig o'r allbynnau priodol, gan alluogi mwy o dechnolegau a brofwyd gan dystiolaeth i fod ar gael i'r system iechyd a gofal.
17. Dywedodd rhanddeiliaid sydd â phrofiad uniongyrchol o HTW ei fod wedi'i nodweddu gan ymgysylltiad cryf ac effeithiol gan gynnwys ei waith gyda'r gymuned gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid hefyd yr her, fel rhan anghymesur o fach o system iechyd a gofal Cymru, o godi proffil HTW ymhlith poblogaeth ehangach o weithwyr proffesiynol a rheolwyr iechyd a gofal. Amlygir yr her hon hefyd mewn arolwg diweddar gan HTW gyda rhanddeiliaid a ddangosodd, er nad yw'n cael ei egluro sut y canfuwyd y sampl o 300 o randdeiliaid, fod cydnabyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith y 60 o ymatebwyr yn gymysg. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr

eisoes yn ymgysylltu â HTW felly gallai'r canlyniadau hyn hyd yn oed oramcangyfrif proffil HTW.

18. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol gan randdeiliaid allanol i'r gwaith archwilio mabwysiadu ac i'r dull a ddefnyddiwyd a oedd wedi cydbwysu'r angen i ddeall yr effaith o safbwynt gwella ansawdd â chydymffurfio â statws y canllawiau 'mabwysiadu neu gyfiawnhau'. Wrth groesawu datblygiad pellach y gwaith i ddeall mabwysiadu yn fwy manwl, roedd safbwyntiau rhanddeiliaid yn cynnwys:
 - a. Cefnogaeth i gynnwys canllawiau NICE perthnasol;
 - b. Yr angen i roi ystyriaeth i argaeledd gwasanaethau, capasiti, seilwaith a chyfluniad lleol wrth wneud dyfarniadau ar fabwysiadu.

Awgrymiadau ar gyfer gwelliant pellach

19. Nid oedd unrhyw awgrymiadau penodol ar gyfer gwella'r thema hon yn yr adolygiad 3 blynedd, yn bennaf oherwydd nad oes adroddiadau cynnydd na diweddariadau ar ymchwiliad 2014 a arweiniodd at sefydlu HTW.
20. Yn seiliedig ar adborth rhanddeiliaid, ac i gefnogi ymhellach ei nod strategol ar ymgysylltu:
 - a. Dylai HTW ystyried sut i gynyddu ymhellach ei broffil y tu hwnt i'w gynulleidfa sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol. Mae tîm HTW eisoes wedi gweithio'n galed ar weithgareddau allgymorth, a gallai mewnbwn arbenigedd cysylltiadau allanol proffesiynol, gyda phrofiad uniongyrchol o ymgysylltu â staff iechyd a gofal rheng flaen, fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu opsiynau pellach ar gyfer hyn;
 - b. Dylai HTW hefyd ystyried sut i wella'r ddealltwriaeth o sut mae ei allbynnau ef ac allbynnau NICE yn cydfodoli er mwyn manteisio ymhellach ar fanteision unigryw ei ffocws Cymreig gydag ystod mor eang â phosibl o ganllawiau HTA (gweler Thema C am ystyriaeth bellach o gydweithio ag asiantaethau HTA eraill). Mae Rhwydwaith Iechyd Cymru, y mae HTW yn ymgysylltu'n effeithiol ag ef, yn cynnig forwm sy'n bodoli eisoes i archwilio hyn.
21. Dylai gwaith archwilio mabwysiadu yn y dyfodol gynnwys canllawiau argymhellion ar dechnoleg a diagnostig feddygol NICE a, lle y bo'n berthnasol, ystyried diweddariadau i ganllawiau NICE lle mae'r rhain yn cael effaith uniongyrchol ar dechnolegau arloesol. Byddai hyn yn cyfateb i raglenni trawsnewid NICE sy'n cynnwys yr uchelgais ar gyfer canllawiau deinamig a lle mae diweddariadau cynyddrannol yn y dyfodol yn ymddangos yn fwyfwy tebygol o adlewyrchu tystiolaeth newydd ar dechnolegau iechyd. Bydd hyn hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth lawn ag argymhelliad 5 adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal.
22. Mewn gwaith archwilio yn y dyfodol, dylai HTW hefyd ystyried ceisio adborth gan gwmnïau y mae eu cynhyrchion yn cael eu harfarnu. Mae gan HTW gysylltiadau da i gael data prynu gan sefydliadau caffael felly byddai'r sensitifrwydd masnachol sy'n atal rhannu data gwerthiant yn cael ei osgoi ond gallai adborth ansoddol gan gwmnïau helpu i greu darlun llawnach o effaith y canllawiau. Byddai Grŵp Defnyddwyr y Diwydiant HTW mewn sefyllfa dda i roi cyngor ar hyn er y gallai fod angen cynrychiolaeth ehangach gan y cwmni, yn dibynnu ar ddiddordeb y diwydiant mewn cymryd rhan.
23. Yn seiliedig ar adborth gan randdeiliaid, ac i gefnogi ymhellach ei nod strategol ar nodi, byddai'n werth ystyried galwadau pwnc yn y dyfodol gyda thema benodol ar flaenoriaethau system, yn enwedig ar adferiad wedi COVID. Gall pynciau sy'n cael effaith sylweddol ar y system fod yn anodd dod o hyd iddynt oherwydd bod newid llwybr ehangach, a allai gael ei alluogi gan dechnoleg, yn dibynnu'n bennaf ar bobl a

phrosesau ac yn aml yn cael ei ysgogi gan ganllawiau clinigol fel y rheini gan NICE. Fodd bynnag, mae HTW wedi dangos yn ei alwadau pwnc blaenorol, gan gynnwys y thema ddigidol ddiweddar, allu rhagorol i ennyn ymateb cryf gan y system iechyd a gofal. Croesawodd rhanddeiliaid allanol y syniad hwn ac roeddent yn ei gefnogi ar draws pob sector, gan gynnwys adferiad dewisol gofal eilaidd a gofal sylfaenol a chymunedol. Argymhellodd rhanddeiliaid hefyd ddefnyddio'r holl rwydweithiau clinigol sydd ar gael gan gynnwys y rheini ar gyfer therapiau a nyrsio, yn ogystal â grwpiau meddygol y mae HTW eisoes wedi'u cysylltu'n gryf â nhw. Nododd rhanddeiliaid fod canser a diagnosis a monitro o bell (sydd eisoes yn cael eu cynrychioli yn rhaglen waith HTW) yn feysydd o ddiddordeb arbennig o uchel.

THEMA B. Ansawdd allbwn arfarnu

24. Mae'r thema hon yn ymdrin â chwestiynau'r adolygiad a'r awgrymiadau gwella canlynol, yn y drefn a ddangosir. Ar gyfer awgrymiadau a wnaed am gwestiynau yn y cam 3 blynedd, ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y fanyleb adolygu 5 mlynedd, rhoddir disgrifiad byr o'r cynnydd.

Thema	Cwestiwn yr adolygiad	Cwestiynau'r adolygiad ac awgrymiadau gwella perthnasol S1 i S3 (a rhifau paragraff) o'r adroddiad adolygiad cynnydd 3 blynedd
B. Ansawdd allbwn arfarnu	4	Ansawdd swyddogaeth arfarnu HTW, ei adolygiad tystiolaeth a'i allbynnau o ran Canllawiau a'u cysondeb ag arfer da wrth gynnal HTA. S1 Ymsefydlu ac amser i ffwrdd ar gyfer pwyllgorau (paragraff 22) S3 Datblygu a chyhoeddi prosesau a dulliau ar gyfer datblygu canllawiau (24) S2 Gwella'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith asesu tystiolaeth HTW (23)

Prif ganfyddiadau

25. Yn yr adolygiad 3 blynedd, roedd HTW wedi cyhoeddi 18 canllaw; mae ailddechrau pynciau a gafodd eu hoedi pan gafodd capasiti ei ddargyfeirio i waith COVID-19 wedi arwain at 13 canllaw arall gan gynnwys diweddariadau i 2 bwnc cynnar (atodiad 4) a'r adroddiadau archwilio pwnc (TER) ategol ac adroddiadau gwerthuso tystiolaeth (EAR). O gymharu â'r cyfnod 2018 i 2020, roedd cyfran uwch o argymhellion cadarnhaol mewn canllawiau a gyhoeddwyd yn 2021 a 2022 (atodiad 5).
26. Cyflwynir argymhellion ac ystyriaethau canllawiau yn gryno mewn dogfen fer, wedi'i strwythuro'n rhesymegol, ac esbonnir yn llawn ystyriaethau'r Panel Arfarnu wrth wneud ei benderfyniadau.
27. Mae HTW wedi gwneud, ac yn parhau i wneud, cyfraniad pwysig at asesiadau tystiolaeth yng Nghymru, a hefyd drwy gydweithio'n rhyngwladol, ar dechnolegau a ddefnyddir i reoli COVID-19 (gweler Thema D am ystyriaeth bellach o hyn).

28. Mae recriwtio, cadw, goruchwylio a datblygiad proffesiynol ymchwilwyr â'r sgiliau priodol yn hanfodol i gynnal ansawdd allbwn HTA, yn enwedig pan fydd staff newydd yn dod i'w swyddi, fel sydd wedi digwydd yn ystod ehangiad HTW. Mae'r sefydliad wedi bod yn llwyddiannus, er gwaethaf y gronfa gymharol fach o ymgeiswyr yng Nghymru, o ran recriwtio a chadw staff o ansawdd uchel ac mae yna bolisi, sy'n seiliedig ar y broses o werthuso ac adolygu datblygiad staff, ar gyfer cael mynediad at hyfforddiant a datblygiad perthnasol. Mae tîm HTW yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i ategu'r broses ymsefydlu safonol ar gyfer ymchwilwyr (gweler thema D am ystyriaeth bellach o ddatblygiad staff). Dylai hyn sicrhau, er enghraifft, bod datblygiad proffesiynol a hyfforddiant o ansawdd uchel yn y sgiliau HTA craidd o adolygu systematig a modelu economaidd ar gael i ymchwilwyr. Gall fod yn anodd dod o hyd i hyfforddiant o'r fath, yn enwedig hyfforddiant sy'n uniongyrchol berthnasol i dechnolegau iechyd, felly dylai HTW barhau i weithio gyda sefydliadau ag anghenion tebyg.

Adborth gan randdeiliaid allanol

29. Disgrifiodd aelodau'r Grŵp Cyngori eu profiad fel un boddhaol a gwerth chweil, yn hybu hyder mewn gofal a ysgogir gan dystiolaeth, a bod dogfennaeth a chefnogaeth tîm HTW o ansawdd uchel. Dywedodd mwyafrif mawr, gan gynnwys y rheini oedd â phrofiad blaenorol o gyfarfodydd wyneb yn wyneb, fod y trefniadau cyfarfodydd rhithwir yn gweithio'n dda ac nad oeddent yn amharu ar ansawdd y drafodaeth. Dywedodd rhai rhanddeiliaid na fyddent fel arall yn gallu ymrwymo'r amser i fynychu pe ddychwelid i gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Barnwyd bod y broses arfarnu yn drylwyr ond yn deg gan yr holl randdeiliaid, a bod y tîm yn agored i drafodaeth pan fynegir pryderon am y broses neu ei chanlyniadau.

Cynnydd ar awgrymiadau ar gyfer gwelliant yn yr adolygiad 3 blynedd

30. S1 - cyflwynwyd system ymsefydlu a datblygiad parhaus ar gyfer grwpiau gwneud penderfyniadau ac, er bod tîm HTW yn awyddus i ddatblygu hyn ymhellach, cafwyd adborth cadarnhaol gan aelodau.
31. S3 – mae llawlyfr arfarnu yn cael ei ddatblygu'n dda wedi'i gefnogi gan reolaeth prosiect effeithiol ac er y rhannwyd drafft ar gyfer yr adolygiad hwn, mae'n rhy gynnar i ddod i gasgliadau manwl am ei gyflawnrwydd neu ei ddefnyddioldeb. Gallai'r ystyriaethau canlynol fod yn ddefnyddiol ar gyfer ei ddatblygiad yn y dyfodol:
- Ystyried cynnwys adran benodol ar gyfer nodi'r prif gynulleidfa/cynulleidfaoedd ar gyfer y llawlyfr ac i'r iaith a'r cynnwys adlewyrchu hynny;
 - Dim ond amserlenni a cherrig milltir lefel uchel ar gyfer camau datblygu canllawiau y dylid eu disgrifio er mwyn gadael hyblygrwydd ar gyfer addasu yn y dyfodol;
 - Penderfynu ar y cydbwysedd rhwng prosesau disgrifio (pa gamau a ddilynir) a dulliau (sut mae'r dystiolaeth yn cael ei hasesu a'i harfarnu) a bod lefel y manylder ar dulliau yn debyg rhwng pennu effeithiolrwydd clinigol ac effaith economaidd;
 - Ystyried cynnwys ystyriaethau o ran gwneud penderfyniadau ynglŷn â phryd y bydd arfarniad ar gyfer un neu ar gyfer nifer o dechnolegau yn cael ei gynnal ac, ar gyfer yr olaf, pa ddull a ddefnyddir pan fydd gweithdrefn yn cael ei harfarnu lle mae nifer o dechnolegau tebyg ar gael i'w rhoi ar waith;

- e. Ystyried cynnwys cyfeirio at yr angen am brosesau a dulliau newydd mewn ymateb i arfer gorau sy'n dod i'r amlwg mewn HTA, a'r addasiadau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol fathau o dechnoleg megis ymyriadau gofal cymdeithasol. Byddai'n arbennig o amserol cynnwys dulliau ar gyfer asesu ansawdd tystiolaeth y byd go iawn mewn modd strwythuredig, o gofio'r datblygiadau methodolegol yn y maes hwn;
 - f. Ystyried defnyddio'r cyfnod ymgynghori arfaethedig ar y llawlyfr arfarnu i geisio adborth wedi'i dargedu gan randdeiliaid y diwydiant.
32. S2 – mae'r Grŵp Asesu (AG) wedi'i gryfhau drwy ychwanegu 2 adolygydd systematig ac ail economegydd iechyd. Mae HTW hefyd ar hyn o bryd yn tendro am wasanaethau sicrhau ansawdd allanol ar gyfer ei lawlyfr arfarnu, gwaith asesu tystiolaeth a chreu llawlyfr technegol i ymchwilyr. Gyda'i gilydd, dylai'r mentrau hyn roi sicrwydd ansawdd priodol cyn belled:
- a. Bod y tendr yn llwyddiannus;
 - b. Bod disgwyliadau arbenigwyr allanol HTA y Grŵp Asesu yn glir, bod eu cyfraniadau sicrhau ansawdd yn rhan o gynllun gwaith y Grŵp Asesu, a'r llwyth gwaith yn dderbyniol;
 - c. Yn amodol ar gadarnhau bod gwaith HTW o fewn cwmpas, mae'r trefniadau sicrhau ansawdd cyffredinol ar gyfer modelu economaidd yn cydymffurfio ag [adolygiad llywodraeth y DU o sicrhau ansawdd modelau economaidd](#) (argymhellion Macpherson).

Awgrymiadau pellach ar gyfer gwelliant

- 33. Nid yw fformat canllawiau HTW wedi newid llawer ers y pynciau cynnar ac, er bod yr archwiliad mabwysiadu wedi gofyn a oedd yr argymhellion yn glir, nid oedd wedi'i gynllunio i brofi pa adrannau o'r canllawiau oedd fwyaf defnyddiol, na pha mor ddarllenadwy oeddent. Gall mewnbwn gan olygydd meddygol proffesiynol i adolygu sampl o allbwn canllawiau roi dadansoddiad defnyddiol o uniongyrchedd, crynoder, Saesneg plaen/Cymraeg clir ac eglurder, a gall nodi unrhyw broblemau hygyrchedd gydag allbynnau HTW. Gall opsiynau ar gyfer y dyfodol gynnwys hyrwyddo'r defnydd o adnoddau presennol megis canllaw arddull a thempled canllawiau wedi'i ddiweddarau. Efallai y byddai'n werth hefyd, o bosibl fel rhan o archwiliad mabwysiadu yn y dyfodol, gynnwys cwestiynau sydd wedi'u cynllunio i brofi defnydd, a defnyddioldeb, adrannau o'r canllawiau a'r dogfennau ategol.
- 34. Cadarnhaodd y gwaith arsylwi ar y grwpiau cynghori, a fu'n ymwneud â datblygu canllawiau, gasgliadau'r adolygiad 3 blynedd bod y broses arfarnu wedi'i hategu gan ddogfennaeth o ansawdd uchel, a bod y crynodeb o'r canfyddiadau o'r dystiolaeth a nodwyd wedi'i gyflwyno'n glir ac yn gynhwysfawr. Dylai HTW hefyd ystyried ychwanegu ystyriaethau penodol ar ansawdd y dystiolaeth, gan ystyried dilysrwydd mewnol (gan ddefnyddio rhestrau gwirio ansawdd priodol ar gyfer y mathau o dechnoleg a thystiolaeth) ac allanol (ei chyffredinolrwydd i lwybr DU/Cymru).
- 35. Daeth yr adolygiad 3 blynedd i'r casgliad bod trefniadau ar gyfer Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd yn nodedig, ac mae hyn yn parhau i fod yn wir. Fodd bynnag, nid oes gan yr EAR na'r dogfennau canllaw adran benodol ar ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys effaith mabwysiadu'r dechnoleg ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddai'r Grŵp Sefydlog Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd mewn sefyllfa dda i ystyried opsiynau ar gyfer hyn, gan ddefnyddio'r asesiad tegwch a wnaed yn ystod y broses blaenoriaethu pynciau.

36. Mae HTW yn monitro presenoldeb aelodau'r Grŵp Cyngori ac mae cworwm wedi'i ddiffinio ymlaen llaw. Er mwyn gallu gwneud y penderfyniadau gorau posibl, dylai hefyd ystyried:
- Pennu isafswm cyfradd presenoldeb disgwylidig (e.e. 75% o gyfarfodydd ym mhob tymor aelodaeth 18 mis) ar gyfer aelodaeth barhaus;
 - Diffinio ymhellach gymysgedd yr aelodau sydd ei hangen i gael cworwm, yn ogystal â mwyafrif rhifyddol.

THEMA C. Effaith ac enillion ar fuddsoddiad

37. Mae'r thema hon yn ymdrin â'r cwestiynau adolygiad a'r awgrymiadau gwella isod, yn y drefn a ddangosir. Ar gyfer awgrymiadau a wneir am gwestiynau yn ystod y cyfnod 3 blynedd, ond nad dynt wedi'u cynnwys yn y fanyleb adolygu 5 mlynedd, rhoddir disgrifiad byr o'r cynnydd.

Thema	Cwestiwn yr adolygiad	Cwestiynau'r adolygiad ac awgrymiadau gwella perthnasol S5 to S7, S10-S12 (a rhifau paragraff) o'r adroddiad adolygiad cynnydd 3 blynedd
C. Effaith ac enillion ar fuddsoddiad	8	<p>Asesiad o effaith cyfraniadau HTW a'r enillion ar fuddsoddiad a gwerth am arian HTW.</p> <p>S4 Monitro ymrwymadau mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chydweithrediadau asiantaethau HTA (33, 34)</p> <p>S10 Dadansoddiad o'r defnydd o adnoddau o amser technegol er mwyn sicrhau bod swyddogaeth canllawiau craidd HTW yn cael ei blaenoriaethu (53)</p> <p>S11 Monitro a gwella effeithlonrwydd prosesau nodi pynciau a gwaith paratoi gan gynnwys gwaith ar y cyd ag asiantaethau HTA eraill (54)</p> <p>S6 Sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau cyfeirio a datblygu canllawiau i fel y gellir llunio barn am werth am arian yn y dyfodol (36)</p> <p>S12 Opsiynau i gynyddu'r mewnbwn o bynciau canllaw, gan gynnwys penderfyniadau cynharach ynglŷn ag a ddylid datblygu pynciau a sut, addasu canllawiau eraill a chyfyngu ar nifer yr arfarniadau technoleg lluosog sy'n defnyddio llawer o adnoddau (55)</p> <p>S7 Archwilio opsiynau ar gyfer darpariaeth gydweithredol/comisiynu gwasanaethau asesu tystiolaeth (41)</p>

Prif ganfyddiadau

38. Daeth yr adolygiad 3 blynedd i'r casgliad bod tystiolaeth ddogfennol yn dangos dull strategol i HTW fesur ei effeithlonrwydd a'i gynhyrchiant, gan gynnwys datganiadau effaith blynyddol sydd bellach hefyd yn ymdrin ag allbynnau COVID-19, defnydd parhaus o fframwaith gwerthuso'r sefydliad, a dadansoddiad cost ac effaith ei ganllawiau. Mae'r maes hwn felly yn parhau i fod yn gryfder.

39. Daeth yr adolygiad 3 blynedd hefyd i'r casgliad nad oes digon o wybodaeth i wneud dyfarniad pendant ar werth cyffredinol am arian. Mae hyn yn parhau i fod yn wir ac mae'r cyfyngiadau (diffyg gwybodaeth feincnodi a data anghyflawn ar effaith mabwysiadu) y tu allan i reolaeth uniongyrchol HTW. Yn lle hynny, mae'r thema hon yn ystyried rhai meysydd lle mae HTW eisoes yn cynyddu ei effaith a/neu effeithlonrwydd, a/neu lle mae rhagor o gyfleoedd posibl.
40. Mae HTW wedi gweithio'n galed i gynnal a datblygu'r cydweithrediadau cenedlaethol a rhyngwladol a ddisgrifir yn fanwl yn adroddiad yr adolygiad 3 blynedd, i adnewyddu cytundebau partneriaeth presennol ac i ffurfio cynghreiriau newydd. Mae papurau a nodiadau cyfarfodydd yn dangos tystiolaeth o gydweithio cryf yn seiliedig ar ymddiriedaeth a chydabyddiaeth. Er ei fod yn haeddiannol falch o ansawdd ac annibyniaeth ei ganllawiau ac allbynnau eraill, mae gwaith nodedig y tu ôl i'r llenni i rannu data ac asesiadau tystiolaeth dechnegol, yn enwedig drwy'r Gynghrair Geltaidd.

Adborth gan randdeiliaid allanol

41. Nododd rhanddeiliaid fod ymdrin â phynciau wedi gwella ers 2020; rhoddodd y rheini sydd â phrofiad o nodi pynciau adborth cadarnhaol, byddent yn gwneud hynny eto ac yn annog cydweithwyr i wneud hynny hefyd. Dywedodd rhanddeiliaid fod canllawiau cadarnhaol yn ddefnyddiol wrth lunio achos busnes ar gyfer mabwysiadu a sicrhau buddsoddiad ychwanegol ond nodwyd y gallai canllawiau gan NICE fod yn fwy dylanwadol.
42. Cafwyd adborth cynnes ar effaith gwaith cydweithredol HTW o fewn ecosystem arloesi Cymru, gan gynnwys am ei waith ar y cyd â Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC).
43. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod y rhan fwyaf o'r pynciau a ddewiswyd i'w harfarnu gan HTW yn werth chweil o ran eu buddion posibl i gleifion a systemau. Roedd barn leiafrifol bod penderfyniadau dilyniant pwnc yn rhy amharod i gymryd risg ac y gellid arfarnu pynciau sydd â mwy o ansicrwydd, gyda'r potensial i wneud argymhellion gyda chasglu data arfaethedig i gau'r bylchau tystiolaeth a nodwyd.
44. Nododd rhanddeiliaid o bob sector yr angen am waith pellach ar gydgyssylltu pynciau ag asiantaethau HTA eraill, yn enwedig NICE, a chydabyddir hyn gan dîm HTW. Mae grwpiau sefydledig ar lefel strategol a gweithredol ond mae pawb yn gytûn bod angen gwneud mwy o waith ar fframwaith cliriach ar gyfer penderfynu pa asiantaeth fydd yn arfarnu pwnc a nodir, ac ar statws o'r naill ochr y canllawiau dilynol. Teimlir bod angen datblygu'r trefniadau presennol ar gydgyssylltu pynciau ymhellach er mwyn osgoi'r risg o ddyblygu gwaith ar yr un pwnc, gydag enghreifftiau o hyn mewn allbynnau diweddar TER HTW / IMTO SHTG / MIB NICE, ac yng nghanllawiau HTW a IPG/MTG NICE. Nododd rhanddeiliaid yr her o ddatrys y materion hyn a nodwyd rhai ystyriaethau allweddol, gan gynnwys:
 - a. Ni ddylai unrhyw gorff HTA ddechrau archwilio pwnc heb ddweud wrth yr asiantaethau eraill, a dylai'r wybodaeth honno gael ei storio'n ganolog;
 - b. Os penderfynir ar asiantaeth arweiniol ar gyfer unrhyw bwnc a nodir, a fydd yr arfarniad sy'n deillio o'r gwaith yn cael ei gydnabod ar y cyd a sut y byddai unrhyw ganllawiau dilynol yn cael eu brandio;
 - c. Mae addasu yn opsiwn deniadol i aildefnyddio gwerthusiadau sy'n bodoli'n barod er mwyn hyrwyddo mabwysiadu grŵp ehangach o dechnolegau a brofwyd gan dystiolaeth, a thrwy hynny cael mwy o effaith. Fodd bynnag, mae angen gofal i sicrhau bod y broblem penderfyniad a ddefnyddir yn adlewyrchu'r llwybr lleol, a bod unrhyw wahaniaethau yn y dyfarniadau a wneir ar yr un asesiad tystiolaeth wedi'u cyfiawnhau'n llawn.

45. Mae'r rhain yn faterion heriol ond roedd rhanddeiliaid yn cytuno bod HTW mewn safle cryf fel ffocws ar gyfer mabwysiadu technolegau profedig yng Nghymru, beth bynnag fo tarddiad y gwerthusiad.

Cynnydd ar awgrymiadau ar gyfer gwelliant o adolygiad 3 blynedd

46. Roedd awgrymiadau S4, S6, S10, S11 ac S12 yn ymdrin â'r potensial ar gyfer gwella effeithlonrwydd gwaith HTW mewn meysydd gan gynnwys nodi pynciau a gwaith paratoi, opsiynau ar gyfer cynyddu'r mewnbwn o bynciau canllaw, ac ar gydweithrediadau rhyngasiantaethol. Ers yr adroddiad 3 blynedd, mae tystiolaeth glir o gynllunio llif gwaith gwell gan gynnwys datrys problemau a dulliau creadigol o ddatrys 'tagfeydd' prosesau. Ar gyfer datblygu pynciau, mae amserlenni dangosol ar gyfer cyfranogiad pob aelod o'r tîm ac er y bu enillion mewn effeithlonrwydd o ganlyniad i hyn, mae'r tîm yn cydnabod bod angen mwy o waith, yn enwedig i leihau'r amser a gymerir ar gamau cynnar pynciau, gan gynnwys datblygiad TER.
47. Nododd yr adolygiad 3 blynedd yr angen i fonitro cyfranogiad HTW mewn cydweithrediadau rhyngwladol megis INAHTA i sicrhau bod HTW yn cael budd o'i gyfraniad, ac nad yw'r amser staff a neilltuwyd yn effeithio ar ei swyddogaethau craidd. Mae angen monitro hyn yn barhaus er bod HTW wedi rheoli'n dda ei ymadawiad o'i ymwneud yn y cydweithrediad EUnetHTA, o ganlyniad i'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.
48. Roedd awgrym S12 yn cynnwys ystyried cyfyngu ar nifer yr arfarniadau gan gynnwys technolegau lluosog, sydd fel arfer yn defnyddio mwy o adnoddau. Ers dechrau 2021, mae 8 o'r 13 pwnc canllaw wedi cynnwys technolegau lluosog, fel arfer lle mae dewisiadau eraill ar gael i roi'r weithdrefn sy'n ffocws i'r arfarniad ar waith. Mae'n debygol bod hwn yn adlewyrchiad syml o feysydd pwnc a nodwyd gan gynigwyr, ac a gafodd sgôr uchel ar feini prawf dilyniant HTW.
49. Roedd awgrym S7 yn ymdrin â'r opsiynau ar gyfer darpariaeth gydweithredol/comisiynu gwasanaethau asesu tystiolaeth. Mae HTW yn parhau i archwilio'r opsiynau hyn ac mae mewn sefyllfa dda, gan gynnwys drwy ei waith fel darparwr gwasanaeth tystiolaeth ar gyfer Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru, i fanteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol.

Awgrymiadau pellach ar gyfer gwella

50. Yn ei nod ar nodi pynciau y Cynllun Strategol, eglurodd HTW yr angen i gytuno ar fecanweithiau rhwng cyrff HTA y DU. Mae mecanweithiau o'r fath yn bodoli ond mae asiantaethau a rhanddeiliaid yn cytuno bod angen newid trawsnewidiol, er mwyn gwella effeithlonrwydd ymdrin â phynciau, ac i ddatrys y materion a ddisgrifir ym mharagraff 44. Mae archwiliad llawn ac arfarniad opsiynau ar gyfer hyn a materion cysylltiedig, megis statws o'r naill ochr ar gyfer y canllawiau, y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn ond mae atebion tymor byr posibl yn cynnwys:
- Symud oddi wrth y system bresennol o rannu taenlenni cynllun gwaith pwnc a chyfnewid e-byst yn ad hoc. Gallai'r Gwasanaeth Arloesi ddarparu plattform ar gyfer hyn ac mae HTW yn ymgysylltu ar lefelau strategol a gweithredol y gymuned defnyddwyr gwasanaeth;
 - Mae'r cydweithio rhyngwladol diweddar rhwng asiantaethau HTA Awstralia, Canada a'r DU yn cynnig y cyfle, o dan Flaenoriaeth 4, i brofi trefniadau effeithlonrwydd ar gyfer asesu ar y cyd, gan gynnwys rhannu gwaith. Mae gan hyn botensial cryf i drosi un asesiad tystiolaeth dechnegol yn argymhellion sy'n ystyried yr effaith ar y system iechyd leol, ac mae HTW mewn sefyllfa ddelfrydol ar gyfer hyn. Mae HTW hefyd mewn sefyllfa dda i fanteisio ar broses asesu

- gydweithredol oherwydd bod ei allbynnau arwahanol – TER, EAR a chanllawiau – yn rhoi sail resymegol ar gyfer unrhyw fframwaith rhannu gwaith yn y dyfodol.
- c. Byddai dadansoddiad o orgyffwrdd, wedi'i gynnal ar y cyd â NICE ac asiantaethau eraill, yn ddefnyddiol i fesur maint yr heriau o ran cydlynu pynciau;
 - d. Ffocws ar bynciau sy'n arbennig o berthnasol i Gymru ac efallai nad ydynt yn cael eu blaenoriaethu gan asiantaethau eraill; mae HTW hefyd mewn sefyllfa dda ar gyfer hyn oherwydd ei ymgysylltiad cryf â rhaglenni fel canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru, sydd wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'w alwadau pwnc yn y gorffennol.
51. Er mwyn gwella ymhellach ei waith gyda sefydliadau arloesi yng Nghymru, dylai HTW ystyried datblygu cytundeb partneriaeth gyda TriTech (ac unrhyw fentrau tebyg eraill mewn Byrddau Iechyd neu mewn mannau eraill) lle mae'n ymddangos, yn seiliedig ar ei gynllun strategol 5 mlynedd, bod uchelgeisiau a rennir. Yn yr un modd â chytundebau eraill o'r fath, dylai hyn egluro rolau priodol a nodi cyfleoedd ar gyfer ffrydiau gwaith cydweithredol sydd â'r potensial i gynhyrchu, neu gefnogi, pynciau canllaw.
 52. Er mwyn lleihau ymhellach yr amser a dreulir ar brosesu pynciau nad ydynt yn arwain at ganllawiau, dylai HTW ystyried a allai sefydliad arall, fel yr Hwb Gwyddorau Bywyd (LSH), ymdrin â swyddogaethau'r Grŵp Cyfeirio yr un mor effeithiol. Disgrifiodd rhanddeiliaid yr LSH fel sefydliad sydd â swyddogaeth debyg i AHSN yn Lloegr, y mae ei ffrydiau gwaith arloesi yn cyflawni diben cyfeirio tebyg.
 53. Er mwyn cynyddu ei effaith bosibl ymhellach, dylai HTW ystyried manteisio ar ei gysylltiad cryf â sefydliadau caffael i archwilio safbwyntiau rhanddeiliaid ac opsiynau ar gyfer arfarnu cyfleoedd dadfuddsoddi ar dechnolegau iechyd.

THEMA D. Capasiti a gallu

54. Mae'r thema hon yn ymdrin â'r cwestiynau adolygiad a'r awgrymiadau gwella isod, yn y drefn ganlynol. Ar gyfer awgrymiadau a wneir am gwestiynau yn ystod y cam 3 blynedd, ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y fanyleb adolygu 5 mlynedd, rhoddir disgrifiad byr o'r cynnydd.

Thema	Cwestiwn adolygiad	Cwestiynau'r adolygiad ac awgrymiadau gwella perthnasol S8, S9 and S5 (a rhifau paragraff) o'r adroddiad adolygiad cynnydd 3 blynedd
D. Capasiti a gallu	9	Capasiti a gallu HTW, o ran staffio ac arweinyddiaeth, i ymateb yn effeithiol i ofynion yn y dyfodol a'r amgylchedd sy'n newid. S8 Datblygu sgiliau arwain a rheoli ymhlith uwch aelodau staff ac ystyried rôl rheoli rhaglenni (46) S9 Cynnal a datblygu ymhellach y fframwaith cynllunio busnes ac adrodd, gan gynnwys monitro risg (47) S5 Sicrhau pris marchnad teg am Gyngor Gwyddonol (35)
	6	Asesiad o gyfraniad HTW i ymateb COVID-19 yng Nghymru.
	7	Ystyried cyfraniadau allweddol y gall HTW eu cynnig i gefnogi Strategaeth Arloesi Cymru Llywodraeth Cymru.

Prif ganfyddiadau

55. Daeth yr adolygiad 3 blynedd i'r casgliad bod HTW yn cael ei lywodraethu'n dda, gydag arweinyddiaeth gref a diwylliant sefydliadol cadarnhaol, ac mae hyn yn parhau i fod yn wir. Ers 2020, mae'n haeddiannol falch o ddychweliad wedi'i reoli i fusnes fel arfer ac, fel y nodwyd yn gynharach, mae hyn yn arbennig o amlwg yn y cynnydd mewn allbwn canllawiau, gyda 13 wedi'u cyhoeddi ers dechrau 2021 o gymharu â 18 o'i sefydlu hyd at ddiwedd 2020.
56. Mae tîm HTW yn adrodd mai recriwtio a chadw yw ei her weithredol fwyaf ond serch hynny mae wedi bod yn llwyddiannus mewn recriwtio i swyddi newydd ac mae wedi archwilio ffyrdd newydd o ddatblygu ymchwilwyr newydd sydd â phrofiad cyfyngedig o HTA.
57. Mae HTW wedi dangos dro ar ôl tro – yn arbennig, ond nid yn gyfan gwbl yn ei waith ar COVID-19 – y gallu i ymateb i heriau newydd, i weithio'n hyblyg ac yn effeithiol gydag ystod eang o randdeiliaid.
58. Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei strategaeth Arloesi Cymru. Rhannwyd ymateb HTW fel rhan o'r adolygiad hwn ac mae'n dangos dealltwriaeth graff o'r dirwedd arloesi yn gyffredinol ac o'r heriau a'r anghenion ar gyfer sefydliadau, fel ef ei hun, y mae eu cyfrifoldeb yn hyrwyddo mabwysiadu technolegau arloesol.

Adborth gan randdeiliaid allanol

59. Cafwyd canmoliaeth gan randdeiliaid allanol ynglŷn â chyflymder ac ansawdd gwaith HTW ar COVID-19, a pha mor hawdd yw gweithio gyda thîm HTW. Dywedodd sawl rhanddeiliad fod y gwaith COVID-19 wedi helpu HTW i ehangu ei gyrraedd. Mae'n cael ei ystyried yn bartner cryf yn rhwydwaith sefydliadau Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru.
60. Yng nghyd-destun strategaeth Arloesi Cymru, nododd rhanddeiliaid bod HTW yn 'gartref naturiol' yng Nghymru ar gyfer asesu effeithiolrwydd clinigol a chost a mynegwyd siom nad oedd digon o gapasiti yn y system iechyd a gofal i fabwysiadu ei ganllawiau. Roeddent hefyd o'r farn y dylai polisi arloesi yn y dyfodol fod yn seiliedig ar ddysgu o rannau eraill o'r DU, er enghraifft fel bod canllawiau'n destun mentrau mabwysiadu cyflymach neu well i gryfhau'r statws 'mabwysiadu neu gyfiawnhau' presennol, nad yw'n cael ei ddeall yn gyffredinol.

Cynnydd ar awgrymiadau ar gyfer gwella o'r adolygiad 3 blynedd

61. S8 - Mae uwch reolwr rhaglen wedi bod yn ei swydd ers mis Rhagfyr 2021 ac mae'n effeithiol iawn mewn arwain swyddfa rhaglen y mae ei chyfrifoldebau eang yn cynnwys cynllunio ac adrodd, rheoli prosiectau a swyddogaethau cymorth gweithredol. Yn ogystal â'r arbenigedd rheoli prosiect pwrpasol presennol ar gyfer gwaith pwnc a phwyllgor, mae rheolwr busnes a gweithrediadau yn gyfrifol am

swyddogaethau cymorth hanfodol sy'n cynnwys cyllid, caffael, adnoddau dynol a datblygu sefydliadol.

62. S8 - Awgrymodd yr adolygiad 3 blynedd hefyd, wrth i HTW ehangu, y byddai angen datblygiad arweinyddiaeth a rheolaeth ychwanegol ar uwch aelodau staff. Mae hwn wedi'i gwblhau'n rhannol a chyflwynwyd cynllun datblygu rheolaeth ehangach ar gyfer pob rheolwr llinell.
63. S9 – Mae datblygiad y Cynllun Strategol, a'r gallu ychwanegol yn swyddfa'r rhaglen, wedi galluogi fframwaith cynllunio busnes ac adrodd blynyddol llawer gwell. Craffir ar hyn yn rheolaidd ac yn effeithiol drwy'r Grŵp Gweithredol y mae noddwr HTW Llywodraeth Cymru a'r Prif Weithredwr sy'n ei gynnal yn aelodau ohono.
64. S5 – Bu llai o brosiectau Cyngor Gwyddonol na'r disgwyl, felly byddai'n gynamserol i ddod i farn ynglŷn â chynnydd ar yr awgrym hwn. Ceir rhagor o ystyriaethau am y gwasanaeth ym mharagraff 68.

Awgrymiadau pellach ar gyfer gwella

65. Yn yr un modd ag unrhyw sefydliad sy'n cyflawni'n uchel, ac ar ôl pum mlynedd o weithredu llwyddiannus, dylai HTW sicrhau bod cynllunio olyniaeth effeithiol, yn enwedig ar gyfer y Cyfarwyddwr a'r Cadeirydd; mynegwyd yr angen hwn gan nifer o randdeiliaid allanol. Mae wedi dechrau'r broses hon drwy recriwtio Dirprwy Gadeirydd ar gyfer y Panel Arfarnu sydd, er bod oedi, wedi'i gwblhau a bydd yn dechrau yn gynnar yn 2023.
66. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu, rhoi ar waith a monitro'r cynllun gweithredu yn seiliedig ar yr arolwg staff diweddar, yn enwedig, ond nid yn gyfan gwbl, mewn perthynas â'r canlynol: trosglwyddo i weithio hybrid; diwylliant a datblygiad sefydliadol; a datblygu datblygiad proffesiynol strwythuredig mewn sgiliau HTA ar gyfer ymchwilwyr.
67. Ar ôl pum mlynedd o weithredu, dylai HTW adolygu effaith, a'r angen ar gyfer ei fframwaith gwerthuso a'r platfform meddalwedd cysylltiedig. Er bod y rhain wedi rhoi arweiniad gwerthfawr yn ei flynyddoedd ffurfiannol, dylai HTW sicrhau nad yw'n cyfyngu ar ei waith nac yn lleihau ei ystywythder. Mae'r fframwaith gwerthuso hefyd wedi llywio datblygiad adroddiadau blynyddol sydd hyd yn hyn wedi'u llunio'n gynhwysfawr ac yn broffesiynol. Mae'n bosibl y bydd hi bellach yn bosibl ailddefnyddio cynnwys o adroddiadau monitro cynlluniau busnes arferol i lunio adroddiad blynyddol byrrach, symlach heb leihau ei werth i gynulleidfaoedd targed.
68. Mae strategaeth Arloesi Cymru yn cydnabod swyddogaeth arfarnu graidd HTW fel rhan o gylich oes cynnyrch gwyddorau bywyd. Mae cyfleoedd i HTW ar gamau eraill o'r cylch oes a dylai fod yn ddetholus wrth dargedu'r rhain. Mae ei Wasanaeth Cyngor Gwyddonol (SAS) eisoes yn cefnogi adeiladu cynigion gwerth a dylunio a datblygu tystiolaeth sylfaenol ac mae rhanddeiliaid yn cefnogi ei ehangu. Yng nghyd-destun y strategaeth, byddai HTW mewn sefyllfa dda i gynyddu darpariaeth arbenigedd o'r fath i ddatblygwyr cynnyrch. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n ceisio cyllid ymchwil trosiadol gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a chyllidwyr grant eraill, lle – er enghraifft – mae angen modelu economaidd cynnar sy'n aml yn absennol. Byddai ehangu Cyngor Gwyddonol yn y modd hwn yn golygu gweithredu'n fasnachol fel gweithgaredd tybiannol ar wahân i'r gwaith o ddatblygu canllawiau, ond byddai ganddo'r manteision deul o adennill costau a wariwyd, a dylai gynyddu nifer y technolegau sy'n dod ymlaen gyda sylfaen dystiolaeth wedi'i dylunio'n dda.

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i dîm Technoleg Iechyd Cymru am gefnogaeth ymroddedig ac ymrwymedig i'r adolygiad a wnaethant mewn ffordd gyfeillgar a hynod effeithlon. Diolch iddynt hefyd am fod yn agored yn y gwahanol drafodaethau. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i randdeiliaid allanol a roddodd eu barn yn rhydd ac yn frwdfrydig.

Fy marn i yn unig a fynegir yn yr adroddiad. Roedd hwn yn adolygiad lefel uchel gydag amcanion eang a lle'r oedd llawer iawn o dystiolaeth ddogfennol i'w defnyddio. Bu adolygiad cyflym o'r dystiolaeth yn sail i'r sylwebaeth a'r argymhellion yn yr adroddiad ond roedd crynodeb manwl o'r holl dystiolaeth a gasglwyd y tu allan i gwmpas yr adolygiad. Fy nghyfrifoldeb i yw unrhyw wallau neu hepgoriadau o ganlyniad i hynny.

Datgan buddiannau

Rwy'n darparu gwasanaethau ymgynghori â thâl i gwmnïau technoleg iechyd ond nid oes gennyf unrhyw brosiectau cyfredol ar dechnolegau sy'n cael eu hystyried yn weithredol gan HTW. Mewn rôl flaenorol fel uwch reolwr NICE, cymerais ran mewn trafodaethau cynnar â rhanddeiliaid gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ar yr opsiynau o ran arfarnu sy'n deillio o adroddiad Mynediad at Dechnolegau Meddygol Cymru.

**Mark Campbell, ymgynghorydd technoleg iechyd annibynnol
Tachwedd 2022**

Atodiad 1: Manyleb adolygiad cynnydd 5 mlynedd HTW

Atodiad 2: Crynodeb o'r dystiolaeth a gasglwyd ac a adolygwyd

(Sylwer: roedd llawer o'r dystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad mewn mwy nag 1 cwestiwn yr adolygiad; mae pob eitem wedi'i rhestru yn y cwestiwn cyntaf y mae'n berthnasol iddo)

	Cwestiwn adolygiad	Disgrifiad cryno o'r dystiolaeth a adolygwyd
1	Cynnydd cyffredinol HTW yn erbyn yr argymhellion a oedd sail i'w sefydlu yn ymchwiliad 2014 Llywodraeth Cymru, 'Mynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru'.	<p>Ar gael yn gyhoeddus Adroddiadau blynyddol Adroddiadau effaith</p> <p>Darparwyd Adroddiad i grwpiau cymheiriaid allweddol Cymru e.e. Prif Weithredwyr Enghreifftiau o gofnodion diweddar (pan eu bod ar gael): Grŵp Gweithredol; Grŵp Defnyddwyr y Diwydiant; Grŵp Cyfeirio; Grŵp Sefydlog Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd; Grŵp Fforwm Rhanddeiliaid; Panel Arfarnu Grŵp Asesu Adroddiad Gweithdy Gofal Cymdeithasol Cymru HTW Mehefin 21 Cynllun Gweithredu Gofal Cymdeithasol HTW Ionawr 2022</p>
2	Cynnydd HTW yn erbyn yr amcanion a nodir yng Nghynllun Strategol HTW.	<p>Ar gael yn gyhoeddus Cynllun Strategol</p> <p>Darparwyd Cynllun Busnes 2022/23</p>
3a	Cynnydd parhaus, gan adeiladu ar adroddiad adolygiad annibynnol 3 blynedd HTW, gan ei ddiweddarau i'r cyfnod 5 mlynedd; canolbwyntio ar flynyddoedd 3-5 ac ymgorffori hyn i grynodedb cyffredinol o gynnydd (blynyddoedd 0-5).	<p>Ar gael yn gyhoeddus</p> <p>Darparwyd Adroddiadau'r Cyfarwyddwr/Adroddiadau Chwarterol i Lywodraeth Cymru Adroddiad Arolwg Rhanddeiliaid 2022</p>
3b	Asesu cynnydd HTW yn erbyn yr awgrymiadau gwella a amlinellwyd yn yr adolygiad 3 blynedd.	<p>Ar gael yn gyhoeddus Technoleg Iechyd Cymru: Adroddiad Adolygiad Cynnydd 3 Blynedd, Tachwedd 2020</p>

4	Ansawdd swyddogaeth arfarnu HTW, ei adolygiad tystiolaeth a'i allbynnau o ran Canllawiau a'u cysondeb ag arfer da wrth gynnal HTA.	Ar gael yn gyhoeddus Dogfennau Canllaw Adroddiadau Asesu Tystiolaeth Adroddiadau Archwilio Pwnc Darparwyd Papurau'r Grŵp Asesu (AG) Papurau'r Panel Arfarnu (AP)
5	Asesu cynnydd yn natblygiad swyddogaeth archwilio mabwysiadu HTA, yn seiliedig ar adroddiad peilot yr archwiliad mabwysiadu (drafft).	Ar gael yn gyhoeddus Datblygu Swyddogaeth Archwilio HTW i asesu mabwysiadu canllawiau HTW a NICE ar dechnolegau nad ydynt yn feddyginiaeth ledled Cymru: Adroddiad ac Argymhellion 2020 Adroddiad Peilot Archwiliad Mabwysiadu Technoleg Iechyd Cymru 2021/2022
6	Asesiad o gyfraniad HTW i ymateb COVID-19 yng Nghymru.	Ar gael yn gyhoeddus Allbynnau cysylltiedig â COVID o wefan HTW gan gynnwys Datganiad Effaith 2020
7	Ystyried cyfraniadau allweddol y gall HTW eu cynnig i gefnogi Strategaeth Arloesi Cymru Llywodraeth Cymru.	Ar gael yn gyhoeddus Dogfen ymgynghori Arloesi Cymru Gorffennaf 2022 Strategaeth Ddigidol i Gymru 2021 Cynllun Busnes Sefydliad TriTech Darparwyd Ymateb HTW i'r ymgynghoriad i'r Strategaeth Arloesedd
8	Asesiad o effaith cyfraniadau HTW a'r enillion ar fuddsoddiad a gwerth am arian HTW.	Ar gael yn gyhoeddus Datganiadau Effaith Darparwyd Strategaeth Effaith Arolwg Rhanddeiliaid Memorandwm cyd-ddealltwriaeth a nodiadau cyfarfodydd gydag asiantaethau eraill
9*	Capasiti a gallu HTW, o ran staffio ac arweinyddiaeth, i ymateb yn effeithiol i ofynion yn y dyfodol a'r amgylchedd sy'n newid.	Darparwyd Gweithdrefnau Gweithredu Safonol

		Traciwr rhaglen waith HTW, yn manylu ar nifer y ceisiadau ac allbynnau Organogram Gwybodaeth am swyddi gwag a throsiant staff Cynllun Busnes HTW
10	Meysydd a awgrymir i'w datblygu, yn seiliedig ar ddadansoddiad o fylchau yn erbyn argymhellion yr Ymchwiliad, i sicrhau bod HTW yn parhau i fod ar flaen y gad o ran arferion HTA ac yn cynnal trylwyredd ac ymddiriedaeth yn ei arfarniadau a'i ganllawiau.	Amherthnasol
*	Wedi'i gario ymlaen neu ei addasu o feysydd adolygiad cynnydd 3 blynedd	

Atodiad 3: cyfweiliadau ffôn

Enw	Swydd	Safbwynt
Staff		
Susan Myles	Cyfarwyddwr HTW	
Peter Groves	Cadeirydd HTW	
June Price	Rheolwr Busnes	
Katie McDermott	Rheolwr Prosiect	
Lisa King	Uwch Reolwr Rhaglen	
Matthew Prettyjohns	Prif Ymchwilydd	
David Jarrom	Prif Ymchwilydd	
Rhanddeiliaid allanol		
Luella Trickett*	Cyfarwyddwr Gwerth a Mynediad, ABHI *ddim ar gael yn ystod cyfnod y cyfweiliad, wedi ymateb i gwestiynau drwy e-bost	Diwydiant Aelod Panel Arfarnu
Alex Zervakis	Rheolwr Cyffredinol – Economeg Iechyd a Mynediad i'r Farchnad, Olympus UK	Diwydiant
Ifan Evans	Cyfarwyddwr Gweithredol - Strategaeth Ddigidol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru	Strategaeth a pholisi cenedlaethol
Tom James	Pennaeth Arloesi, Llywodraeth Cymru	Strategaeth a pholisi cenedlaethol Noddwr Llywodraeth Cymru
Rhodri Huw Davies	Cardiolegydd Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Clinigydd Aelod Panel Arfarnu
Andrew Champion	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwerthuso Tystiolaeth ac Effeithiolrwydd, WHSC	System iechyd a gofal Aelod Panel Arfarnu
Melanie Wilkie	Pennaeth Comisiynu seiliedig ar Ganlyniadau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	System iechyd a gofal Aelod Panel Arfarnu
Sarah McCarty	Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu, Gofal Cymdeithasol Cymru	System iechyd a gofal Cadeirydd Fforwm Rhanddeiliaid
Raj Krishnan	Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt / Arenegwr Pediatrig Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	System iechyd a gofal Cadeirydd Fforwm Rhanddeiliaid

Thomas Rackley	Oncolegydd Ymgynghorol, BIP Felindre	Clinigydd Ymgynghorydd arbenigol pwnc
Lisa Davies	Pennaeth Arfer Clinigol Effeithiol a Gwella Ansawdd, BIP Hywel Dda	Cadeirydd Fforwm Rhanddeiliaid
Andrew Smallwood	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Caffael (Trawsnewid), Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru	Strategaeth a pholisi cenedlaethol Aelod Panel Arfarnu
Mark Briggs	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arloesi a Gweithredu BIP Caerdydd a'r Fro	System iechyd a gofal Aelod Grŵp Asesu
Ed Clifton	Pennaeth Grŵp Technolegau Iechyd yr Alban	HTA
Adrian Edwards	Cyfarwyddwr Canolfan Dystiolaeth COVID-19 ac Athro Ymarfer Cyffredinol	System iechyd a gofal
Rhys Morris	Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Technoleg Iechyd CEDAR, Caerdydd	HTA Aelod Grŵp Asesu
Mark Chapman	Cyfarwyddwr dros dro technoleg feddygol a gwerthuso digidol, NICE	HTA
Zoe Garrett	Uwch Ymgynghorydd Technegol – Materion Gwyddonol, NICE	HTA
Paul Dimmock/Liz Islam*	Uwch Ymgynghorydd Technegol/Rheolwr Prosiect, NICE * ymateb i gwestiynau penodol drwy e-bost	HTA